# ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2015/16

**Cynghorydd: Mair Rowlands** **Grŵp: Plaid Cymru**

**Ward: Bangor - Menai**

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rôl a chyfrifoldebau:**
Aelod Etholedig dros Ward Menai Bangor
Aelod Cabinet Arweiniol Plant a Phobl Ifanc; Hamdden; Gwynedd Iach; a Gwasanaethau Ieuenctid;

**Gweithgareddau etholaethol:**

Cefnogi a chynorthwyo etholwyr unigol a grwpiau o etholwyr mewn nifer o achosion - Ymgymerais ag amrywiol waith achos yn y Ward drwy gydol y flwyddyn. Roedd y problemau'n cynnwys: Tai amlfeddiannaeth, tai gwag, materion sbwriel, sŵn, problemau priffyrdd a pharcio, tyllau yn y ffyrdd, palmentydd peryglus, cynllunio a thrwyddedu. Wedi llwyddo i gael palmentydd a ffyrdd yn y ward wedi eu hail wynebu.

Cadw golwg cyson ar gyflwr yr etholaeth gan gysylltu â chyfarfod gyda thrigolion, swyddogion a deiliaid portffolio i drafod problemau.

Mynychu cyfarfodydd ac Is-bwyllgor Trwyddedu i gefnogi gwrthwynebiadau gan drigolion ynghylch oriau agor hwyr yn y nos a chyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio i gefnogi gwrthwynebiadau am or-ddatblygiad o dai a fflatiau amlfeddiannaeth.

Cyswllt cyson gyda'r Heddlu ynglŷn â chyfraith a threfn yn ward ac wedi cerdded o amgylch y ward nifer o weithiau i adnabod problemau.

Fel aelod o Gymdeithas Bangor Uchaf, cymdeithas trigolion sy'n ymdrin â phroblemau neu weithgareddau yn y ward, fe wnes i fynychu cyfarfodydd misol gyda thrigolion i wrando ar eu barn a'u pryderon a rhoi gwybodaeth iddynt am unrhyw gais cynllunio neu drwyddedu neu unrhyw ddigwyddiad arall yn y ward.

Mynychu cyfarfodydd ar y cyd rhwng y Cyngor yr Undeb Myfyrwyr, y Brifysgol ac asiantaethau tai i drafod ymgyrch diwedd blwyddyn i ddelio gyda phroblemau gwastraff, a chyfarfod rhwng yr undeb Myfyrwyr a'r Cyngor i drafod creu ap ailgylchu.

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**
Aelod o Gyngor Dinas Bangor
Aelod o Gymdeithas Bangor Uchaf
Cadeirydd Cangen Plaid Cymru Bangor
Mynychu cyfarfodydd Beicio Bangor
Mynychu cyfarfodydd Tyfu i gynorthwyo gyda'r gwaith o geisio cael rhandiroedd i Fangor Uchaf
Mynychu cyfarfodydd Grŵp Cymunedol Bangor
Cynorthwyo efo Dathliadau Nadolig a Charnifal Bangor
Cyfarfodydd efo Swyddog Prosiect Cyngor Dinas Bangor i drafod gwahanol brosiectau a chyfleoedd posib
Rhan o dîm gwirfoddolwyr parkrun Penrhyn parkrun cyntaf Gogledd

Cyfarwyddwr ar Fwrdd Menter Iaith Bangor - Wedi cynorthwyo gyda'r gwaith o drefnu gweithgareddau Diwrnod S'mae (15 Hydref) ym Mangor; sefydlu a threfnu Parêd a Dathliadau Gŵyl Ddewi Bangor; cynrychioli Menter Iaith Bangor yn achlysurol yng nghyfarfodydd Grŵp Cymunedol Pobl Bangor (TPOBCG); llawer o waith eleni wedi mynd ar gynllunio a sefydlu Canolfan Iaith Bangor yn dilyn derbyn grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru.

Digwyddiad Bwyd Ysgol ar Gopa'r Wyddfa – 1/6/15
Seremoni Wobrwyo Chwaraeon Ysgol – 9/6/15
Agoriad Cylch Dechrau'n Deg Talysarn – 13/6/15
Ymweliad a Alltwen – Rhoi Her Gwynedd ar Waith – 22/6/15
Noson Dathlu Llwyddiannau Pobl Ifanc Gwynedd – 12/11/15
Seremoni Wobrwyo Zoe Roberts – Gweithiwr Cefnogol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid - 16/11/15
Agoriad Storiel - 22/2/16
Agoriad Canolfan Dechrau'n Deg Plas Ffrancon, cyfarfod Y Gweinidog Lesley Griffiths AM - 25/2/16

Agoriad Llyfrgell Porthmadog yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn – 18/3/16

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:**

| PWYLLGOR | NIFER CYFARFODYDD* | PRESENNOL | YMDDIHEURO | ABSENNOL |
|---|---|---|---|---|
| Is-Bwyllgor Trwyddedu Canolog | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Y Cabinet | 14 | 12 | 2 | 0 |
| Y Cyngor | 6 | 4 | 2 | 0 |

* NIFER CYFARFODYDD Y PWYLLGOR YN YSTOD 2015/16

Canran Presenoldeb: 76%

**Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir oherwydd:**
Ar 10/12/15 roeddwn yn mynychu Cynhadledd Arweinwyr Ewropeaidd Ifanc yn Caeredin
Ar 18/3/16 Roeddwn yn agoriad swyddogol Llyfrgell Glaslyn yn y Ganolfan Hamdden ar ran y Cabinet

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**
Gweithdai Toriadau Her Gwynedd
Is-Grŵp Amrywiaeth mewn Democratiaeth
Panel Awtistiaeth
Arolwg Thematig Estyn – Addysg heb law ysgol
Cyfarfod Craffu GWE efo Estyn
Cyfarfod ar Gyfranogi Plant a Phobl Ifanc - Llywodraeth Cymru

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol yn fy rôl fel Aelod Cabinet:**
Cabinet
Cadeirio Panel Rhiantu Corfforaethol
Cadeirio Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus
Cadeirio Bwrdd Partneriaeth Plant, Pobl Ifanc a Chefnogi Teuluoedd Gwynedd
Cadeirio Panel Cyflawni Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirio Bwrdd Prosiect Hamdden
Bwrdd Rheoli Dechrau'n Deg
Bwrdd Rheoli Derwen
Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd & Môn
Prosiect Partneriaeth Arweinyddiaeth Llywodraethu – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:**
Ysgol Cae Top (Llywodraethwr Ysgol)
Ysgol Friars (Llywodraethwr Ysgol)
Grŵp Cyswllt Prifysgol Bangor

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y digwyddiadau a chyfarfodydd canlynol:**
Digwyddiad The Guardian – 'Forward Women' – Gwestai Panel – 18/11/15, Llundain
Cynhadledd Arweinwyr Ewropeaidd Ifanc – 8-10/12/15, Caeredin (YELAC - Young European Leaders for Active Citizenship).

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

| **Corfforaethol** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Dementia - Codi Ymwybyddiaeth a datblygu cymunedau demtia cyfeillgar (2.5 awr) | 09-Mai-2016 |
| Hyfforddiant/sesiwn - 'Rhaglen Ddatblygol Y Cabinet' | 25-Ebrill-2016 |
| Dull Seiliedig ar hawliau Anabledd (2.5 awr) | 31-Mawrth-2016 |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru 2014) (2.5 awr) | 21-Ionawr-2016 |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru 2014) (2 awr) | 07-Gorffennaf-2015 |
| Arwain yn Ddiogel (2 awr) | 19-Mai-2015 |

**Cyfanswm nifer o oriau: 17.5**